# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**(via Microsoft Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 7 Mehefin 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.D.Morgan** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd A.R.Aubrey** |
| **Cynghorwyr**: | S.Miller, S.Pursey, S.Renkes, A.Llewelyn, S.K.Hunt a/ac A.J.Taylor |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Curran, A. Thomas |

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2021 fel cofnod cywir.

## 3. SEFYDLU CYLCH GORCHWYL AR GYFER 'CYNEFINO; CYNLLUN RHAGLEN AR GYFER SEFYDLU AELODAU 2022'

Aeth Craig Griffiths drwy gynnwys yr adroddiad. Cadarnhawyd y byddai'r gweithgor yn ystyried sefydlu aelodau ac Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Mae'r aelodau'n ymwybodol bod angen sicrhau bod aelodau sy'n dod i mewn drwy is-etholiad hefyd yn cael eu hystyried yn ystod y broses hon.

Trafododd yr aelodau Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn fyr. Ystyriwyd y model hybrid a chydnabu'r aelodau ei bwysigrwydd wrth gyfrannu at hyblygrwydd gwaith yn y dyfodol. Awgrymwyd hefyd efallai y gellid cysylltu â'r cyflogwyr mwy o fewn y fwrdeistref i drafod

sut yr oeddent yn annog democratiaeth yn y gweithle h.y. yr hawl i amser i ffwrdd etc.

Trafododd yr aelodau sut y dylai aelodau ymgysylltu â swyddogion yn y dyfodol – sut y dylai hyn weithio a sut y bydd yn parhau yn y dyfodol. Er enghraifft, sut y byddai swyddog yn mynd at aelod o staff.

(a) Penderfynwyd ar y canlynol: Cytunodd aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y dylid nodi Sefydlu Aelodau 2022 fel maes gwaith â blaenoriaeth i'r pwyllgor.

(b) Penderfynwyd ar y canlynol: Bod aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i gyfarfod yn ystod mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi 2021, gyda'r bwriad o gyfrannu at gynigion ar gyfer ffurf a chynnwys y rhaglen Sefydlu Aelodau yn 2022 ac ystyried y rhaglen amrywiaeth mewn democratiaeth.

(c) Penderfynwyd ar y canlynol: Bod aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cytuno i gynnal cyfarfod arbennig o Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ym mis Hydref 2021 neu o'i gwmpas i ystyried allbwn gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen.

## 4. <u>CYNLLUN ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AELODAU</u>

Derbyniodd a nododd y pwyllgor y Cynllun Adroddiad Blynyddol i Aelodau.

Penderfynwyd: Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

## 5. <u>PROSES ADOLYGU DATBLYGIAD PERSONOL AELODAU (DPA)</u>

Derbyniodd a nododd yr aelodau Broses Adolygu Datblygiad Personol yr Aelodau.

Penderfynwyd: Dylid nodi'r adroddiad.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2021/22

Derbyniodd a nododd y pwyllgor yr adroddiad.

Nododd yr aelodau'r adborth a roddwyd i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a oedd yn yr adroddiad drafft yn flaenorol.

Penderfynwyd: Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRŴP CYFEIRIO TECHNOLEG GWYBODAETH AELODAU

Derbyniodd a nododd y pwyllgor Adroddiad Blynyddol Grŵp Cyfeirio Technoleg Gwybodaeth Aelodau.

Nododd yr aelodau fabwysiadu *Zoom* a fyddai'n galluogi cyfieithu Cymraeg yn ystod cyfarfodydd. Mae'n dal yn gynnar o ran ei ddefnydd, ond mae swyddogion yn ymdrechu i sicrhau ei fod yn gweithio, yn ôl yr angen i'r cyngor. Ni fydd yn cael ei gyflwyno i'r aelodau nes bod y system yn gweithio yn ôl y gofyn. Mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch defnyddio dau lwyfan (*Microsoft Teams* a *Zoom*) a'r dryswch y gallai hyn ei achosi. Cytunodd swyddogion y byddai angen ei sefydlu'n dda a byddai digon o dreialon i sicrhau bod pawb yn gyfforddus yn defnyddio'r llwyfan cyn gwneud unrhyw newid. Cododd yr aelodau'r pwynt y byddai'n rhaid i *Zoom* weithio o fewn sefyllfa hybrid hefyd, nid ar gyfer defnyddwyr o bell yn unig.

Trafododd yr aelodau'n fyr y broblem o ddefnyddio cyfarpar personol i gael mynediad at gyfrifon y cyngor.

Penderfynwyd: Dylid nodi'r adroddiad.

## 8. BLAENRAGLEN WAITH 2021-22

Penderfynwyd: Nodi'r Blaenraglen Waith er gwybodaeth.

## 9. EITEMAU BRYS

Ni gyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**